# Talu am Gynnwys y Cyhoedd mewn Ymchwil Iechyd a Gofal: Canllaw i sefydliadau ar statws cyflogaeth a threth


Crynodeb gweithredol 2

Sefydliadau sy'n cymeradwyo'r canllawiau hyn 3

1. Cyflwyniad 3

2. Statws cyflogaeth cyfranogwyr cyhoeddus 4

Sut i benderfynu ar statws cyflogaeth 5

Categoreiddio gweithgareddau cynnwys y cyhoedd 5

Twlsyn Gwirio Statws Cyflogaeth ar gyfer Treth (CEST) 8

Cyn ichi ddechrau 9

Unwaith y cewch chi ganlyniad twlsyn CEST 9

Llawlyfr Statws Cyflogaeth CThEF 10

Canllawiau eraill 10

Llawlyfr Incwm Cyflogaeth CThEF (EIM71105) 10

Treth gweithio oddi ar y gyflogres (IR35) 11

3. Goblygiadau ar gyfer unigolion sy'n ymgymryd â gweithgareddau cynnwys y cyhoedd 12

4. Cyfranogwyr cyhoeddus sy'n derbyn budd-daliadau lles 12

5. Diolchiadau 13

Atodiad 1: Cefndir i gynnwys y cyhoedd mewn ymchwil 14

Beth ydy cynnwys y cyhoedd mewn ymchwil? 14

Gwerth cynnwys y cyhoedd 14

Atodiad 2: Cefndir i dalu am gynnwys y cyhoedd mewn ymchwil 16

Heriau talu 17

Atodiad 3: Cyd-ddatganiad ar yr angen am bolisïau priodol ar gyfer gwobrwyo a chydnabod cyfranogwyr cyhoeddus sydd a wnelo ag ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol 19

Atodiad 4: Siart lif penderfynu 21

Atodiad 5: Crynodeb o ddogfennau, dolenni neu adnoddau 22

# Crynodeb gweithredol

**Cefndir**

Mae'r ddogfen ganllawiau hon ar gyfer sefydliadau sy'n talu cyfranogwyr cyhoeddus fel rhan o'u gwaith cynnwys aelodau'r cyhoedd mewn ymchwil. Bwriedir i ymchwilwyr a staff ymchwil sy'n gyfrifol am gynnwys y cyhoedd mewn ymchwil hefyd ei defnyddio.

Mae'r ddogfen ganllawiau hon wedi'i hysgrifennu ar y cyd gan y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Iechyd a Gofal (NIHR), yr Awdurdod Ymchwil Iechyd, Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a chyfranogwr cyhoeddus o Gymru.

Wrth ddatblygu'r ddogfen ganllawiau hon, bu'r awduron yn ymgynghori â sefydliad Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi (CThEF) i sicrhau bod unrhyw gyfeiriadau at ganllawiau CThEF yn gywir a bod unrhyw ddehongliadau'n fanwl gywir. Ymgynghorwyd hefyd â gweithwyr proffesiynol adnoddau dynol a chyllid, arweinwyr cynnwys y cyhoedd, arweinwyr polisi ac aelodau o'r cyhoedd sydd â phrofiad yn hyn o beth.

**Ynglŷn â'r ddogfen ganllawiau hon**

Nod y ddogfen hon yw:

- Rhoi cyfarwyddyd i'r rheini sy'n rheoli ac yn gweinyddu trefniadau talu i lywio trwy reoliadau treth a statws cyflogaeth mewn ffordd briodol, fel eu bod yn teimlo'n fwy hyderus
- Darparu gwybodaeth a dolenni i ganllawiau mwyaf priodol CThEF er mwyn darparu sail ar gyfer penderfyniadau ar daliadau i gyfranogwyr cyhoeddus ar sail y gweithgareddau cynnwys, yn enwedig o ran statws cyflogaeth

***Fe fydd yna lawer o rolau cynnwys y cyhoedd sy'n bodoli lle bydd pob parti'n fodlon nad oes yna unrhyw ymholiadau sy'n aros sylw ynglŷn â'r goblygiadau o ran treth a chyflogaeth. Nod y canllawiau hyn yw cefnogi unigolion a sefydliadau i ddod o hyd i ddealltwriaeth gyffredin ar gyfer rolau lle nad oes cytundeb neu benderfyniad clir ynglŷn â statws cyflogaeth a/ neu dreth.***

Mae cyfranogwyr fel unigolion yn gyfrifol am eu materion treth eu hunain ac am sicrhau eu bod yn talu treth ar y lefel briodol. Ni fwriedir i'r canllawiau hyn roi gwybod i unigolion am oblygiadau eu gweithgareddau o ran eu gofynion treth eu hunain, gan fod hyn yn amrywio o unigolyn i unigolyn.

## Sut i benderfynu ar statws cyflogaeth – ar gip

Mae'r gymuned ymchwil yn deall yn iawn ei bod yn bwysig cynnwys pobl â phrofiad personol yn y broses ymchwil. Yr arfer gorau cyffredin yw bod cyfranogwyr cyhoeddus

yn cael eu cydnabod am eu hamser, eu profiad personol a'u cyfraniad.

Mae cadarnhau statws cyflogaeth cyfranogwyr cyhoeddus yn helpu i benderfynu ar y dull talu mwyaf priodol ac yn egluro pa oblygiadau allai godi o ran treth i'r sefydliad.

Ar y cyfan, ni ystyrir cyfranogwyr cyhoeddus sy'n cymryd rhan mewn ymchwil iechyd a gofal yn gyflogeion neu'n weithwyr dros dro. Rhaid asesu a yw cyfranogwyr cyhoeddus yn gyflogeion ar gyfer pob gweithgaredd a/ neu rôl cynnwys y cyhoedd lle na fu unrhyw asesiad o statws cyflogaeth o'r blaen.

Er mwyn cynorthwyo â'r broses benderfynu, mae tabl categoreiddio ym Mhennod 2 yn darparu enghreifftiau darluniadol o weithgareddau cyfranogwyr cyhoeddus a'u statws cyflogaeth tebygol a'r goblygiadau tebygol o ran treth.

Ar ôl adolygu'r tabl categorïau a gwneud asesiad cychwynnol o'r statws cyflogaeth tebygol, y cam nesaf i'w gymryd yw adolygu tudalen y llywodraeth sy'n disgrifio'r hyn sy'n cael ei ystyried yn gyflogai a phenderfynu a ydynt yn gyflogeion ym marn CThEF, a defnyddio'r twlsyn Gwirio Statws Cyflogaeth ar gyfer Treth (CEST).

Gellir defnyddio twlsyn CEST i benderfynu a yw rhywun yn gyflogedig neu'n hunangyflogedig at ddibenion treth a chyfraniadau Yswiriant Gwladol. Mae tudalennau canllawiau CEST yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol ar gyfer cwblhau'r twlsyn. Mae CThEF hefyd wedi recordio gweminar am y twlsyn CEST (ar frig y dudalen dan 'Webinars').

Yn y rhan fwyaf o achosion, nid yw treth gweithio oddi ar y gyflogres (IR35) yn berthnasol i gyfranogwyr cyhoeddus sy'n cael eu cynnwys mewn ymchwil. Gall sefydliadau ddefnyddio'r siart lif hon ar gyfer sefydliadau sy'n gleientiaid (PDF) i benderfynu a yw rheolau gweithio oddi ar y gyflogres (IR35) yn effeithio ar y sefydliad.

Mae siart lif penderfynu sy'n amlinellu'r camau gofynnol i benderfynu ar statws cyflogaeth i'w gweld yn Atodiad 4.

## Sefydliadau sy'n cymeradwyo'r canllawiau hyn

Y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Iechyd a Gofal, Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, yr Awdurdod Ymchwil Iechyd.

# 1. Cyflwyniad

Cyhoeddwyd y fersiwn gyntaf o'r ddogfen ganllawiau hon fis Mehefin 2022. Dyma'r ail

fersiwn, sydd wedi'i diwygio a'i gwella ar ôl ystyried adborth a dderbyniwyd oddi wrth randdeiliaid.

Nod y ddogfen hon yw:

- Rhoi cyfarwyddyd i'r rheini sy'n rheoli ac yn gweinyddu trefniadau talu i lywio trwy reoliadau treth a statws cyflogaeth mewn ffordd briodol, fel eu bod yn teimlo'n fwy hyderus
- Darparu gwybodaeth a dolenni i ganllawiau mwyaf priodol CThEF er mwyn darparu sail ar gyfer penderfyniadau ar daliadau i gyfranogwyr cyhoeddus ar sail y gweithgareddau cynnwys, yn enwedig o ran statws cyflogaeth

# 2. Statws cyflogaeth cyfranogwyr cyhoeddus

Mae cyfranogwyr cyhoeddus yn cynnig eu barn annibynnol ar sail eu profiad personol i helpu i ddarparu sail ar gyfer ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol, ei siapio a'i herio. Tra bo angen i sefydliadau sydd â chyllidebau i dalu am gostau cynnwys cyfranogwyr cyhoeddus fod â mecanweithiau addas i alluogi dosbarthu'r cronfeydd hyn, mae angen i drefniadau adlewyrchu statws cyfranogwyr cyhoeddus fel unigolion sy'n dod â phrofiad personol a sgiliau i helpu ag ymchwil.

Y mater sylfaenol i'w ddatrys o ran yr heriau talu cyffredin (fel a amlinellir yn Atodiad 2) yw penderfynu ar statws cyflogaeth cyfranogwyr cyhoeddus. Mae'r penderfyniad ar statws cyflogaeth cyfranogwyr cyhoeddus yn galw am ystyriaeth o'r safbwyntiau a ganlyn:

- Yr unigolyn sy'n cael ei dalu;
- Y sawl yn y sefydliad sy'n cynnig y taliad i gydnabod gweithgarwch (fel rheol, yr ymchwilydd neu'r arweinydd cynnwys y cyhoedd); ac
- Y sefydliad (fel rheol, yr Adran Gyllid).

Dylai pob un o'r tri pharti gytuno ar y penderfyniad terfynol ar statws cyflogaeth a, lle bo angen a lle bo'n ddefnyddiol, dylent gyfeirio at y canllawiau a'r offerynnau y dygir sylw atynt isod.

***Fe fydd yna lawer o rolau cynnwys y cyhoedd sy'n bodoli lle bo pob parti'n fodlon nad oes yna unrhyw ymholiadau sy'n aros sylw ynglŷn â'r goblygiadau o ran treth a chyflogaeth. Nod y canllawiau hyn yw cefnogi unigolion a sefydliadau i ddod o hyd i ddealltwriaeth gyffredin ar gyfer rolau lle nad oes cytundeb neu benderfyniad clir ynglŷn â statws cyflogaeth a/ neu dreth.***

**Nodyn pwysig** – bwriedir y canllawiau yn y ddogfen hon ar gyfer sefydliadau neu ymchwilwyr/ staff cynnwys. Mae unigolion yn atebol am eu treth eu hunain a dylent fod yn ofalus wrth gymryd rhan yn y broses hon a cheisio cyngor annibynnol lle bo angen.

# Sut i benderfynu ar statws cyflogaeth

Ar y cyfan, ni ystyrir cyfranogwyr cyhoeddus sy'n cymryd rhan mewn ymchwil iechyd a gofal yn gyflogeion neu'n weithwyr dros dro.

Nid yw'n bosibl darparu penderfyniad pendant ar statws cyflogaeth i bob cyfranogwr cyhoeddus oherwydd bod rolau ac amgylchiadau'n amrywio'n fawr. Yn wir, mae yna rai amgylchiadau o bosibl lle bydd cyfranogwyr cyhoedd yn dod yn gyflogeion (e.e. cydymgeisydd ar brosiect ymchwil).

Nid yw CThEF yn gallu darparu un asesiad yn unig ar gyfer pob gweithgaredd cynnwys y cyhoedd. Cynghorir bod yn rhaid asesu a yw cyfranogwyr cyhoeddus yn gyflogeion ar gyfer pob gweithgaredd a/ neu rôl cynnwys y cyhoedd lle na fu unrhyw asesiad o statws cyflogaeth o'r blaen. Nod y ddogfen ganllawiau hon yw amlinellu'r camau i'w cymryd i allu penderfynu ar statws cyflogaeth.

Sylwch y gall rhywun fod yn gyflogai dan gyfraith cyflogaeth ond bod â statws gwahanol at ddibenion treth.

Mae 'siart lif penderfynu' sy'n amlinellu'r camau gofynnol i benderfynu ar statws cyflogaeth i'w gweld yn Atodiad 4#Atodiad 4: Siart lif penderfynu.

## Categoreiddio gweithgareddau cynnwys y cyhoedd

Er mwyn cynorthwyo â'r broses o benderfynu ar statws cyflogaeth a goblygiadau o ran treth, amlinellir enghreifftiau darluniadol isod o weithgareddau cynnwys y cyhoedd a'u statws cyflogaeth a'u goblygiadau **tebygol** o ran treth. Bydd angen asesu pob rôl unigol fesul achos. Cydnabyddir hefyd ei bod yn bosibl bod cyfranogwr cyhoeddus yn perfformio amryw o wahanol weithgareddau ar gyfer yr un sefydliad o fewn cyfnod penodol.

Ni fwriedir i hyn fod yn rhestr gynhwysfawr o bob math o weithgareddau cynnwys neu o rolau cyfranogwyr cyhoeddus, ond yn hytrach i fod yn grynodeb o'r rhai mwyaf cyffredin. Ni fyddai'n bosibl darparu enghreifftiau a defnyddio iaith sy'n berthnasol i bob math o waith cynnwys y cyhoedd.

Gellir ystyried y gweithgareddau cynnwys a ddisgrifir isod ar eu pennau eu hunain, ond maent hefyd yn gallu gorgyffwrdd â'i gilydd. Gellir addasu'r categorïau isod ar gyfer gwahanol gyd-destunau, prosiectau ymchwil, sefydliadau ac ati.

Mae'r categoreiddio hwn **ar gyfer y rheini sy'n cynnwys cyfranogwyr cyhoeddus** mewn ymchwil, gan gynnwys sefydliadau, ymchwilwyr, arweinwyr Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd a gweithwyr proffesiynol eraill, **a bwriedir y categoreiddio hwn i wasanaethu'r bobl hynny**. Er enghraifft, lle nodir "Dim rhwymedigaeth i ddidynnu treth o'r taliad", bwriedir hyn o safbwynt y sefydliad, ond mae'n bosibl y bydd angen i'r cyfranogwr cyhoeddus unigol roi gwybod i CThEF am y taliad.

| **Gweithgaredd** | **Statws cyflogaeth (y cyfranogwr cyhoeddus)** | **Atebolrwydd treth (ar gyfer y sefydliad)** |
|---|---|---|
| Mynychu cyfarfodydd neu ddigwyddiadau cyhoeddus agored sydd ddim yn galw am baratoi ymlaen llaw<br><br>Er enghraifft:<br>● Sesiynau galw heibio<br>● Diwrnodau agored<br>● Seminarau<br>● Cynadleddau (ddim yn gwneud cyflwyniad) | Ddim yn gyflogai/ yn weithiwr; yn annhebygol o fod â chontract ffurfiol | Dim rhwymedigaeth i ddidynnu treth o'r taliad |
| Gwneud cyflwyniad mewn cynhadledd, gan gynrychioli sefydliad/ tîm ymchwil a siarad am y profiad o gymryd rhan | Ddim yn gyflogai/ yn weithiwr; yn annhebygol o fod â chontract ffurfiol | Dim rhwymedigaeth i ddidynnu treth o'r taliad |
| Adolygu dogfennau o bell<br><br>Er enghraifft:<br>● Ceisiadau am gyllid<br>● Deunyddiau ymchwil<br>● Crynodeb Saesneg/ Cymraeg Clir | Ddim yn gyflogai/ yn weithiwr; yn annhebygol o fod â chontract ffurfiol | Dim rhwymedigaeth i ddidynnu treth o'r taliad |

| | | |
|---|---|---|
| Gweithgareddau/ prosiectau/ mentrau datblygu ymchwil unwaith ac am byth sydd â ffocws ac sydd â chyfyngiad ar amser, a gwblheir yn nodweddiadol o fewn ychydig o fisoedd. Weithiau, bydd hyn yn cynnwys paratoi a gwneud gwaith o bell rhwng cyfarfodydd.<br><br>Er enghraifft:<br>● Cyfarfod i roi gwybod am flaenoriaethau ymchwil<br>● Trafod ceisiadau am gyllid<br>● Darparu safbwynt y cyhoedd ar gynlluniau ymchwil<br>● Cymryd rhan mewn grwpiau ffocws<br>● Helpu â digwyddiadau ymgysylltu neu ledaenu | Ddim yn gyflogai/ yn weithiwr; yn annhebygol o fod â chontract ffurfiol | Dim rhwymedigaeth i ddidynnu treth o'r taliad |
| Chwarae rhan barhaus mewn prosiect ymchwil neu mewn llywodraethu sefydliadol, gan roi cyngor annibynnol dros gyfnod o amser. Mae'n debygol y bydd hyn yn cynnwys paratoi a gwneud gwaith o bell rhwng cyfarfodydd.<br><br>Er enghraifft:<br>● Cyfranogwr cyhoeddus ar brosiect ymchwil<br>● Cyfranogwr cyhoeddus ar bwyllgor llywio astudiaeth/ grŵp rheoli treial<br>● Cyfranogwr cyhoeddus ar grŵp llywio neu grŵp llywodraethu sefydliad | Yn y rhan fwyaf o achosion, ni fyddai hyn yn cael ei ystyried yn gyflogaeth gan y gellir ei ystyried yn waith darparu cyngor annibynnol. Mae hyn yn dibynnu ar:<br>● Hyd yr amser cynnwys<br>● Lefel y bartneriaeth/ rhannu pŵer/ rheolaeth[1] | Efallai y bydd angen didynnu treth o'r taliad os yw'n gyflogai at ddibenion treth |

[1] Mae rheolaeth yn ffactor penderfynu pwysig ar gyfer y twlsyn CEST (gellir darllen mwy am y twlsyn CEST isod). Mae'n nodi bod gallu'r huriwr i reoli, neu gael yr hawl i reoli, gweithiwr yn gallu bod yn ddangosydd cryf tuag at gyflogaeth. Mae CEST yn rhoi sylw i fater rheoli trwy edrych ar bedwar maes gwahanol: rheolaeth dros yr hyn y mae'r gweithiwr yn ei wneud; rheolaeth dros sut y mae gweithiwr yn gwneud y gwaith; rheolaeth dros pryd y mae gweithiwr yn gwneud y gwaith; rheolaeth dros lle y mae gweithiwr yn gwneud y gwaith.

| | | |
|---|---|---|
| Bod yn aelod llawn a chyfartal o dîm y prosiect/ sefydliad ymchwil, o bosibl yn gwneud ymchwil.<br><br>Er enghraifft:<br>● Cydymgeisydd cyhoeddus ar brosiect ymchwil<br>● Ymchwil dan arweiniad defnyddwyr<br>● Cydymchwilydd | Efallai y bydd angen contract cyflogaeth, gan ddibynnu ar:<br>● Rôl y person o fewn y prosiect ymchwil<br>● Pwy sy'n rheoli'r gwaith<br>● Polisi'r sefydliad lletyol | Didynnu treth cyn gwneud y taliad os yw'n gyflogai at ddibenion treth |

Datblygodd awduron y canllawiau'r categorïau gan ystyried gwybodaeth am weithgareddau a rolau cynnwys 'nodweddiadol' a pholisïau talu sy'n bodoli, ac enghreifftiau lle roedd categorïau tebyg wedi'u hamlinellu. Mae'r colofnau 'statws cyflogaeth' ac 'atebolrwydd treth' wedi'u llunio ar sail profiad ymarferol o ddeddfwriaeth a pholisïau perthnasol.

Fel a amlinellir yn Adran 2, mae yna nifer o ffyrdd y gellir talu cyfranogwyr cyhoeddus, gan gynnwys ffyrdd ariannol ac anariannol. Nid yw'r tabl categorïau, o bwrpas, yn amlinellu cyfraddau talu penodol gan fod y rhain yn amrywio gormod a chyfrifoldeb y sefydliad yw penderfynu ar gyfraddau talu. Fodd bynnag, mae'n bwysig ystyried cyfanswm y taliad y mae cyfranogwyr cyhoeddus yn ei dderbyn os, er enghraifft, y maent yn cymryd rhan mewn nifer o wahanol weithgareddau cynnwys ar gyfer yr un sefydliad.

Ar ôl adolygu'r tabl categorïau a gwneud asesiad cychwynnol o'r statws cyflogaeth tebygol, y cam nesaf i'w gymryd yw adolygu tudalen y llywodraeth sy'n disgrifio'r hyn sy'n cael ei ystyried yn gyflogai a phenderfynu a ydynt yn gyflogeion ym marn CThEF, a defnyddio'r twlsyn Gwirio Statws Cyflogaeth ar gyfer Treth (CEST). Mae'n allweddol bod â dull cyson o fynd ati i asesu, gweithredu a chadw cofnodion sy'n ymwneud â thaliadau.

Dylid ceisio cyngor proffesiynol allanol i ddatrys unrhyw ansicrwydd, yn ôl y galw.

## Twlsyn Gwirio Statws Cyflogaeth ar gyfer Treth (CEST)

Mae statws cyflogaeth unigolyn ar gyfer treth yn pennu'r threthi sydd angen eu talu, gan ddibynnu ar p'un a yw gweithiwr yn gyflogedig neu'n hunangyflogedig. Gellir defnyddio twlsyn CEST i benderfynu a yw rhywun yn gyflogedig neu'n hunangyflogedig at ddibenion treth a chyfraniadau Yswiriant Gwladol.

Mae tudalennau canllawiau CEST yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol ar gyfer cwblhau'r twlsyn. Mae CThEF hefyd wedi recordio gweminar am y twlsyn CEST (ar frig y dudalen dan 'Webinars').

**Cyn ichi ddechrau**

Gall unrhyw un sydd angen deall statws cyflogaeth at ddibenion treth ac yswiriant gwladol ddefnyddio CEST. Gallai hyn gynnwys:

- Y sefydliad sy'n hurio gweithiwr (cyfranogwr cyhoeddus)
- Gweithiwr (cyfranogwyr cyhoeddus) sy'n darparu gwasanaeth
- Partïon eraill sydd a wnelo â'r contract/ y gadwyn gontractiol

I ddefnyddio'r twlsyn CEST, mae'n rhaid bod â chontract ar waith, gan fod y twlsyn yn cymryd bod un ar waith. Cytundeb (llafar neu ysgrifenedig) yw contract, rhwng person neu sefydliad sy'n cynnig talu am rywbeth sydd i'w wneud, ar eu cyfer nhw a'r person sy'n mynd i'w wneud. Mae gwefan CThEF yn darparu rhagor o wybodaeth am gontractau cyflogaeth a mathau o gontractau. Er enghraifft, fe allai fod yn ddefnyddiol gwybod nad oes yn rhaid i gontract cyflogaeth fod wedi'i ysgrifennu, ym marn CThEF.

Cyn dechrau defnyddio'r twlsyn, bydd angen y wybodaeth hon arnoch chi:

- Manylion y contract neu'r cytundeb (a allai fod yn gytundeb ar lafar)
- Cyfrifoldebau'r gweithiwr
- Pwy sy'n penderfynu pa waith sydd angen ei wneud
- Pwy sy'n penderfynu pryd, lle a sut y bydd y gwaith yn cael ei wneud
- Sut y bydd y gweithiwr yn cael ei dalu
- A yw'r swydd yn cynnwys unrhyw fudd-daliadau corfforaethol neu ad-daliad am dreuliau

Yn y twlsyn CEST, gofynnir cyfres o gwestiynau i benderfynu ar statws cyflogaeth, ynglŷn â'r wybodaeth ofynnol sydd wedi'i hamlinellu uchod.

**Unwaith y cewch chi ganlyniad twlsyn CEST**

Mae'r twlsyn yn darparu'r penderfyniadau a ganlyn ar sail y wybodaeth a ddarperir:

- Yn gyflogai at ddibenion treth am y gwaith hwn
- Yn hunangyflogedig at ddibenion treth am y gwaith hwn
- Rheolau gweithio oddi ar y gyflogres (IR35) yn berthnasol (esbonnir y rhain isod)
- Rheolau gweithio oddi ar y gyflogres (IR35) ddim yn berthnasol (esbonnir y rhain isod)
- Canlyniad 'methu â phenderfynu'; pan fydd hyn yn digwydd, bydd y twlsyn yn darparu gwybodaeth bellach i helpu i benderfynu

Bydd CThEF yn glynu at bob penderfyniad y mae'r twlsyn CEST yn ei nodi, cyn belled â bod y wybodaeth a roddwyd yn dal i fod yn gywir. O'r herwydd, mae'n bwysig cadw copi o'r allbwn i gyfeirio ato yn y dyfodol.

Gall cyfranogwr cyhoeddus hefyd ddefnyddio'r twlsyn CEST i benderfynu ar ei statws cyflogaeth a rhoi gwybod i'r sefydliad ei fod wedi gwneud hynny.

Lle penderfynir nad yw'r person yn gyflogai at ddibenion treth, yna dylai'r sefydliad weithio allan a yw'r person yn weithiwr dros dro neu'n hunangyflogedig trwy adolygu diffiniad y llywodraeth o weithiwr, neu hunangyflogedig.

### Llawlyfr Statws Cyflogaeth CThEF

Mae Llawlyfr Statws Cyflogaeth ESM0500 mewnol CThEF yn ganllaw manwl i benderfynu ar statws cyflogaeth at ddibenion treth. Er enghraifft, mae'n cynnwys adran ar y diffiniad o gontract. Fe allai fod yn berthnasol hefyd cyfeirio at y dudalen yn y Llawlyfr Statws Cyflogaeth ar weithwyr i sefydliadau gwirfoddol.

Unwaith y penderfynir ar statws cyflogaeth unigolyn, dylai'r wybodaeth hon helpu i ddeall goblygiadau o ran treth. Dylid trafod a chytuno ar y dull a'r egwyddorion i benderfynu ar hyn ag adran gyllid y sefydliad a/ neu'r adran adnoddau dynol/ cysylltiadau allweddol.

## Canllawiau eraill

### Llawlyfr Incwm Cyflogaeth CThEF (EIM71105)

Nodir yn aml bod canllawiau Llawlyfr Incwm Cyflogaeth 2004 CThEF (EIM71105) ar wirfoddolwyr ymchwil, cyfranogwyr lleyg a'r rheini sy'n cymryd rhan mewn treialon clinigol yn ganllawiau allweddol y mae sefydliadau'n eu defnyddio i benderfynu ar faterion sy'n ymwneud â thalu am gynnwys y cyhoedd. Mae'n bwysig nodi mai diben Llawlyfr Incwm Cyflogaeth CThEF yn gyffredinol yw gwasanaethu gweithwyr achosion CThEF, yn hytrach nag unigolion neu sefydliadau y tu allan i CThEF. Fodd bynnag, mae EIM71105 yn dal i fod yn ganllaw cyhoeddus ac, fel y cyfryw, mae'n esbonio dull mewnol CThEF o weithredu yn hyn o beth.

Mae EIM71105 yn cydnabod:

> *y defnydd o bobl 'leyg' neu 'ddefnyddwyr' mewn ymchwil. Yma, mae'r bobl dan sylw'n cael gwahoddiad i fynychu cyfarfodydd i roi eu barn ar faterion amrywiol i ddarparu sail ar gyfer proses a chyfeiriad yr ymchwil. Yn aml, bydd y rhain yn gyn-gleifion neu'n gleifion ar y pryd, yn gynrychiolwyr grwpiau penodol fel pobl sydd wedi ymddeol neu'n gynrychiolwyr o elusennau. Telir y rhain am gymryd*

*rhan yn y cyfarfodydd.*

Lle bo amgylchiadau o'r fath yn bodoli, yn ôl y canllawiau:

> *Mae CThEF yn cytuno bod y symiau a delir i'r rheini dan sylw yn annhebygol o ddod o fewn y diffiniad o 'enillion' at ddibenion y cynllun Talu Wrth Ennill neu Yswiriant Gwladol. Nid oes perthynas cyflogaeth yn bodoli ac, fel y cyfryw, byddai'r cynllun Talu Wrth Ennill a chyfraniadau Yswiriant Gwladol yn amhriodol.*

Mae'r EIM71105 hefyd yn datgan:

> *Dan Adran 16, Deddf Rheoli Trethi 1970, mae gan CThEF hawl i ofyn fel y mynnant am fanylion taliadau i bobl sydd heb eu cyflogi; ond ni fyddent yn gofyn am fanylion taliadau bach fel mater o drefn.*

Mae cynnwys y cyhoedd mewn ymchwil yn rhychwantu amrywiaeth o weithgareddau, ac nid yw wedi'i gyfyngu i gymryd rhan mewn cyfarfodydd (fel y mae'r canllawiau yn cyfeirio ato'n benodol). Mae defnyddio'r gair 'annhebygol' yn y canllawiau'n golygu y bydd yna elfen o ddehongli wrth benderfynu a yw'r gweithgaredd yn dod o fewn cyfarwyddyd EIM71105. Dyma ddau brif ffactor i'w hystyried yn y cyd-destun hwn: a yw gweithgareddau cynnwys yn golygu cyflogaeth, ac a ystyrir bod treuliau a ad-delir yn 'rhesymol'. Mae hi i fyny i bob sefydliad gymryd cyfrifoldeb am benderfynu beth y maent yn ei ystyried yn 'rhesymol' a deall rheolau treth a'u rhoi ar waith yn eu systemau a'u prosesau eu hunain.

## Treth gweithio oddi ar y gyflogres (IR35)

Dyma ffynhonnell gwybodaeth arall y dylai sefydliadau fod yn ymwybodol ohoni wrth benderfynu ar sut i dalu cyfranogwyr cyhoeddus. Gweithio oddi ar y gyflogres (IR35) yw'r enw byr am y ddeddfwriaeth "cyfryngwyr". Set o reolau treth yw hon, sy'n berthnasol i'r rheini sy'n gweithio i gleient trwy gyfryngwr, sy'n gallu bod yn gwmni cyfyngedig, fel "cwmni gwasanaeth personol". Nod IR35 yw atal contractwyr rhag cymryd rolau a fyddai, fel arall, yn gyflogaeth daladwy pe na bai cyfryngwr yn cael ei ddefnyddio, a threthu'r ymgysylltiad fel pe bai yn gyflogaeth. Gan nad yw cyfranogwyr cyhoeddus (ar y cyfan) yn gontractwyr neu'n gwmnïau gwasanaeth personol, nid yw'n debygol bod y ddeddfwriaeth hon yn berthnasol i gynnwys y cyhoedd.

Gall sefydliadau ddefnyddio'r siart lif hon i benderfynu a yw rheolau gweithio oddi ar y gyflogres (IR35) yn effeithio ar y sefydliad. Gall cyfranogwyr cyhoeddus ddefnyddio'r siart lif hon i benderfynu a yw rheolau gweithio oddi ar y gyflogres (IR35) yn effeithio arnyn nhw.

# 3. Goblygiadau ar gyfer unigolion sy'n ymgymryd â gweithgareddau cynnwys y cyhoedd

Mae angen i gyfranogwyr cyhoeddus fod yn ymwybodol o unrhyw gyfrifoldeb posibl am ddatgan incwm, a dylai'r sefydliad sy'n cynnwys cyfranogwyr cyhoeddus eu hatgoffa ei bod yn bosibl bod angen iddynt ddatgan taliad am gymryd rhan fel incwm trethadwy posibl.

Mae cyfranogwyr fel unigolion yn gyfrifol am eu materion treth eu hunain ac am sicrhau eu bod yn talu treth ar y lefel briodol. Ni fwriedir i'r canllawiau hyn roi gwybod i unigolion am oblygiadau eu gweithgareddau o ran eu gofynion treth eu hunain, gan fod hyn yn amrywio o unigolyn i unigolyn.

Argymhellir gwahanu ad-daliadau treuliau y mae cyfranogwyr cyhoeddus wedi talu'n uniongyrchol amdanynt (gyda derbynebau) o daliadau eraill am gymryd rhan. Gallai unrhyw daliad nad yw'n ad-daliad treuliau allan o boced gael ei ystyried yn incwm trethadwy a bydd yn dibynnu ar faint o incwm arall sydd ganddynt a fydd yn rhaid i unigolyn dalu treth ai peidio. Ni fydd treth am y flwyddyn yn daladwy ar incwm rhywun oni bai ei fod yn codi dros y lwfans treth personol penodedig (£12,570 ar gyfer blwyddyn dreth 2022/23; ewch i dudalen we y llywodraeth i gael rhagor o wybodaeth).

Os yw cyfranogwr cyhoeddus yn hunangyflogedig, efallai y bydd ganddo lwfansau di-dreth ar gyfer ei £1,000 cyntaf o incwm o hunangyflogaeth; 'lwfans masnachu' yw enw'r llywodraeth ar hyn. Dylai cyfranogwyr cyhoeddus ystyried a allai'r senario hwn fod yn berthnasol iddyn nhw.

Yn achos unigolyn sy'n derbyn budd-daliadau lles, mae CThEF a'r Adran Gwaith a Phensiynau'n datgan nad ystyrir ad-daliadau treuliau yn enillion ac na fydd hyn yn effeithio ar eu budd-daliadau. Mae'n well i unigolion gadw cofnod o dreuliau allan o boced, e.e. copi o dderbynneb tocyn trên. I gael rhagor o wybodaeth am y pwnc hwn, darllenwch ganllawiau talu NIHR.

# 4. Cyfranogwyr cyhoeddus sy'n derbyn budd-daliadau lles

Os yw cyfranogwyr cyhoeddus yn derbyn budd-daliadau lles, fe allai unrhyw dâl am

gymryd rhan effeithio ar eu hawliad budd-dal. Dylai’r cyfranogwr cyhoeddus roi gwybod i’r Ganolfan Byd Gwaith am unrhyw weithgaredd am dâl neu weithgaredd gwirfoddol cyn bwrw ymlaen ag ef. Mae’n bosibl y bydd angen caniatâd hefyd i wneud unrhyw weithgaredd am dâl yn y lle cyntaf. Mae gwasanaeth ar gael i ddarparu cyngor cyfrinachol rhad ac am ddim i gyfranogwyr cyhoeddus sy’n derbyn budd-daliadau lles, ar yr effaith y gallai cael eu talu am weithgareddau cynnwys y cyhoedd ei chael ar eu budd-daliadau. Gellir gweld rhagor o wybodaeth am y gwasanaeth hwn yng nghanllawiau talu NIHR.

Er bod cydawduron y ddogfen yn cydnabod pwysigrwydd materion sy’n codi i gyfranogwyr cyhoeddus sy’n derbyn budd-daliadau lles, nid yw darparu canllawiau manwl ar y pwnc hwn o fewn cwmpas y ddogfen ganllawiau benodol hon.

# 5. Diolchiadau

Mae’r ddogfen ganllawiau hon wedi’i hysgrifennu ar y cyd gan y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Iechyd a Gofal (NIHR), yr Awdurdod Ymchwil Iechyd, Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a chyfranogwr cyhoeddus o Gymru.

Mae gweithgor o gyfranogwyr cyhoeddus, staff cynnwys, ymchwilwyr staff cyllid ac adnoddau dynol a staff elusennau wedi cefnogi’r gwaith hwn.

# Atodiad 1: Cefndir i gynnwys y cyhoedd mewn ymchwil

## Beth ydy cynnwys y cyhoedd mewn ymchwil?

Mae cynnwys cleifion a'r cyhoedd mewn ymchwil yn bartneriaeth weithredol rhwng aelodau'r cyhoedd sydd â phrofiad personol ac ymchwilwyr yn y broses ymchwil. Yn aml, y disgrifiad yw gwneud ymchwil 'gyda' neu 'gan' bobl sy'n defnyddio gwasanaethau yn hytrach nag 'iddynt', 'amdanynt' neu 'ar eu cyfer'. Mae cynnwys mewn ymchwil yn wahanol i gymryd rhan mewn astudiaeth fel cyfranogwr. Mae'r term 'cynnwys cleifion a'r cyhoedd', PPI, neu dermau eraill, hefyd yn enwau sy'n cael eu defnyddio am gynnwys y cyhoedd.

Bydd cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr ffurfiol/ anffurfiol yn rhannu eu barn, ar sail yr hyn y cyfeirir ato fel eu 'profiad personol' o'u cyflwr iechyd neu eu sefyllfa gofal cymdeithasol, i ddarparu sail ar gyfer blaenoriaethau, cyfeiriad a phrosesau ymchwil. Maent yn cyfrannu'r hyn y maent yn gwybod sy'n debygol o fod yn berthnasol, yn bwysig ac yn dderbyniol i bobl y mae'r ymchwil ar eu cyfer neu sy'n destun yr ymchwil. Mae'r mewnwelediadau hyn yn helpu'r gweithwyr proffesiynol sy'n cynllunio ac yn cynnal yr ymchwil i sicrhau bod eu hymchwil yn berthnasol, o ansawdd uchel ac yn dra-effeithiol.

Mae'r term 'y cyhoedd' yn cynnwys cleifion, darpar gleifion, gofalwyr a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, yn ogystal â phobl o gymunedau penodol ac o sefydliadau sy'n cynrychioli pobl sy'n defnyddio gwasanaethau. Mae hefyd yn cynnwys pobl sydd â phrofiad personol o un cyflwr iechyd neu fwy, boed yn gleifion ar y pryd ai peidio. Mae hefyd yn gallu cynnwys aelodau'r cyhoedd heb unrhyw brofiad personol penodol, er enghraifft mewn ymchwil i atal clefyd ac i fesurau iechyd cyhoeddus.

## Gwerth cynnwys y cyhoedd

- Lansiwyd gweledigaeth y DU ar gyfer Cyflenwi Ymchwil Glinigol y DU yn y Dyfodol ym mis Mawrth 2021. Nod y weledigaeth hon yw rhyddhau potensial llawn cyflenwi ymchwil glinigol i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, i roi hwb i'r adferiad economaidd ac i wella bywydau pobl ledled y DU. Mae'r weledigaeth yn nodi bod yn rhaid cynnwys cleifion a defnyddwyr gwasanaeth fel mater o drefn mewn dylunio ymchwil glinigol, i sicrhau bod deilliannau'n diwallu eu hanghenion a bod astudiaethau'n cael eu dylunio gyda chyfranogwyr

go iawn a realiti eu bywydau bob dydd mewn cof.
- Daeth arianwyr, rheoleiddwyr a sefydliadau ymchwil sy'n chwarae rhan bwysig yn ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol y DU at ei gilydd, gan weithio gydag aelodau'r cyhoedd, ym mis Mawrth 2022 i ymrwymo i ymrwymiad ar y cyd i wella'r ffordd o gynnwys y cyhoedd mewn ymchwil.
- Mae cynnwys y cyhoedd yn gallu gwella ansawdd a pherthnasedd ymchwil. Mae hefyd yn diwallu egwyddorion democrataidd ehangach sy'n ymwneud â dinasyddiaeth, atebolrwydd a thryloywder (gan mai arian cyhoeddus sy'n ariannu'r rhan fwyaf o ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol).
- Mae'n bwysig cynnwys y cyhoedd yn ystyrlon i sicrhau bod ymchwil yn dda, yn ddiogel ac yn foesegol a dylai hyn fod yn rhan arferol o'r broses ymchwil, a hynny fel mater o drefn.
- Mae cynnwys y cyhoedd yn gallu sicrhau bod astudiaethau ymchwil yn dderbyniol i gymryd rhan ynddynt.
- Mae cynnwys y cyhoedd yn sicrhau bod yna graffu ar y ffordd o gynnal yr astudiaeth o safbwynt y cyhoedd, bod canlyniadau negyddol neu bositif yn cael eu lledaenu'n dryloyw ac, yn y pen draw, yn cyfrannu at lywio gwelliannau mewn gofal a bywydau.
- Mae cynnwys pobl amrywiol yn gynhwysol yn dod â safbwyntiau amrywiol gwerthfawr i ymchwil.
- Mae cynnwys pobl mewn ymchwil yn arwain at ddeilliannau sy'n fwy perthnasol i anghenion a phryderon pobl, sy'n fwy cadarn a dibynadwy ac sy'n fwy tebygol o gael eu defnyddio i wella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

# Atodiad 2: Cefndir i dalu am gynnwys y cyhoedd mewn ymchwil

Mae'r gymuned ymchwil yn deall pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â phrofiad personol yn y broses ymchwil, gydag arianwyr yn gwneud hyn yn rhan ofynnol o geisiadau am grant, a dangosir hyn ymhellach gyda datblygiad [Safonau'r DU ar gyfer Cynnwys y Cyhoedd](#).

Yr arfer gorau cyffredin yw bod cyfranogwyr cyhoeddus yn cael eu cydnabod am eu hamser, eu profiad personol a'u cyfraniad. Yn aml, mae hyn ar ffurf taliad ariannol (wedi'i dalu ag arian parod neu drwy drosglwyddiad banc), er bod sefydliadau hefyd yn defnyddio dulliau eraill o wobrwyo a chydnabod (weithiau'n anariannol), er enghraifft

- Talebau
- Rhoddion
- Mynediad i gyfleusterau (e.e. llyfrgell) neu ofodau
- Mynediad i gyfleoedd hyfforddi
- Penodiadau anrhydeddus

Mae gan gyfranogwyr cyhoeddus hawl i wrthod tâl neu i ofyn am swm llai, a allai fod yn bwysig i unigolion sy'n derbyn budd-daliadau lles. Disgwylir bod treuliau allan o boced (gyda derbynneb) bob amser yn cael eu had-dalu. Mae prif arianwyr ymchwil yn cydnabod costau cefnogi cynnwys y cyhoedd mewn ymchwil, gan ddisgwyl bod y costau hyn yn cael eu cynnwys yn y trefniadau ariannu o'r cychwyn cyntaf a'u bod yn cael eu monitro'n briodol trwy drefniadau rheoli grant arferol.

Mae opsiynau amserol a hyblyg i gydnabod cyfranogwyr wrth wraidd y fframwaith o sut olwg ddylai fod ar gynnwys y cyhoedd yn dda, fel y mae [Safonau'r DU ar gyfer Cynnwys y Cyhoedd](#) yn ei ddisgrifio. Mae Safonau'r DU ar gyfer Cynnwys y Cyhoedd yn manylu ar ddatganiadau clir o gynnwys y cyhoedd yn effeithiol. Mae yna risg y gallai'r materion a amlinellir isod danseilio gallu sefydliadau ac ymchwilwyr i roi'r safonau hyn ar waith yn llawn. Gallai'r canlynol, yn enwedig, fod yn anodd i'w rhoi ar waith:

- Cyfleoedd cynhwysol: Cynnig cyfleoedd cynnwys y cyhoedd sy'n hygyrch ac sy'n cyrraedd pobl a grwpiau yn ôl anghenion ymchwil
- Cydweithio: Cydweithio mewn ffordd sy'n gwerthfawrogi pob cyfraniad, ac sy'n meithrin ac yn cynnal perthnasoedd cynhyrchiol sy'n dangos parch y naill i'r llall
- Llywodraethu: Cynnwys y cyhoedd mewn gwaith rheoli, rheoleiddio, arwain a phenderfynu ynglŷn ag ymchwil

Gwneir taliadau ar wahanol lefelau, gan ddibynnu ar y mathau o weithgareddau

cynnwys. Mewn rhai achosion, ystyrir mai gwirfoddolwyr yw cyfranogwyr cyhoeddus ac, fel y cyfryw, cynigir ad-dalu treuliau iddynt yn unig. Mae hyn yn unol â'r ffordd o dalu pob gwirfoddolwr ar draws sectorau.

Mae yna lawer o fathau o weithgareddau cynnwys y cyhoedd, a gall cyfranogwyr cyhoeddus gael eu cynnwys ym mhob cyfnod o'r cylch ymchwil. Nid oes yr un ateb sy'n addas i bob sefyllfa o ran cynnwys y cyhoedd nac, yn wir, un ffordd o dalu sy'n addas i bawb. O'r herwydd, mae angen defnyddio dull hyblyg o drin taliadau ac mae angen cefnogaeth wedi'i theilwra i ddiwallu anghenion penodol.

Disgwyl arianwyr ymchwil, adrannau llywodraeth ac ymchwilwyr iechyd yw bod cynnwys y cyhoedd yn bwysig ac yn arwain at ymchwil o ansawdd uchel, a'i fod hefyd yn cynnwys cymunedau mwy amrywiol. Oherwydd y ffocws cynyddol ar anghydraddoldebau iechyd, dylai gwaith cynnwys y cyhoedd sicrhau bod pobl o grwpiau sydd â'r deilliannau iechyd gwaelaf yn cael eu cynnwys. Wrth gynnig a hwyluso taliadau am gymryd rhan, mae angen bod yn sensitif i amrywiaeth eang o amgylchiadau a chymryd hyn i ystyriaeth, gan gynnwys pobl sy'n derbyn budd-daliadau lles, pobl ar incwm isel neu ansicr neu bobl sydd o bosibl heb gyfrifon banc.

Er mai diben y ddogfen hon yw darparu canllawiau ymarferol i sefydliadau ynglŷn â sut orau i benderfynu sut i dalu pobl, y nod cyffredinol yw annog cynhwysiant. Er enghraifft, fe allai defnyddio dull cyffredinol i ychwanegu pob cyfranogwr cyhoeddus at y gyflogres ddiystyru pobl sydd heb hawl i weithio, y rheini ar fudd-daliadau sy'n ansicr ynglŷn â sut y gallai hyn effeithio ar eu budd-daliadau a'r unigolion hynny sydd heb gyfrifon banc.

Mae gwasanaeth ar gael i ddarparu cyngor cyfrinachol rhad ac am ddim i gyfranogwyr cyhoeddus sy'n derbyn budd-daliadau lles, ar yr effaith y gallai cael eu talu am weithgareddau cynnwys y cyhoedd ei chael ar eu budd-daliadau. Gellir gweld rhagor o wybodaeth am y gwasanaeth hwn yng nghanllawiau talu NIHR. Mae yna broblemau cynyddol sy'n codi o ran effaith negyddol taliadau ar bobl sy'n derbyn budd-daliadau, ac mae angen gwaith pellach ar hyn. Fodd bynnag, nid dyna yw diben y ddogfen ganllawiau hon ar hyn o bryd.

# Heriau talu

Er bod cynnwys y cyhoedd yn rhan arferol a sylweddol o'r broses ymchwil, mae ymchwilwyr a staff proffesiynol ledled y DU yn dweud yn gyson bod yna heriau parhaus i sicrhau yr eir ati i gydnabod a gwobrwyo cyfranogwyr cyhoeddus mewn ffordd addas ac effeithlon. Mae peidio â gallu darparu tâl addas ac amserol i gyfranogwyr cyhoeddus yn tanseilio'r gallu i ymchwil gynnwys y cyhoedd yn effeithiol, yn allgáu rhai rhannau penodol o'r gymdeithas rhag cymryd rhan, yn gwastraffu cyllid ymchwil ac yn achosi straen diangen i gyfranogwyr cyhoeddus.

Mae enghreifftiau o broblemau cyffredin yn cynnwys:

- Dryswch ynglŷn â ph'un a yw cynnwys y cyhoedd yr un fath â chyflogaeth. Mae amrywioldeb gweithgareddau cynnwys yn gwneud pethau'n fwy anodd fyth, gan nad oes yna'r un dull sy'n addas i bob sefyllfa i fynd i'r afael â'r her hon.
- Mae yna rai canllawiau i'r sector cyhoeddus ar gyfer trin taliadau am gynnwys y cyhoedd y mae sefydliadau wedi dweud eu bod yn cyfeirio atynt wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â thaliadau. Er enghraifft, mae hyn yn cynnwys fersiwn 4 o Gyngor y DWP ar gyfer y rheini sy'n gwneud penderfyniadau, para 4119-20; canllawiau CThEF EIM71100 ac EIM71105; a gwybodaeth treth IR35 ar gyfer gweithwyr oddi ar y gyflogres. Fodd bynnag, yr adborth yw bod y canllawiau'n gallu bod yn groes a'u bod yn gallu arwain at ddryswch ac anghysonderau wrth eu dehongli a'u rhoi ar waith.
- Mae yna anghysonder ar draws dulliau gweithredu cyllid a dulliau gweithredu adnoddau dynol mewn gwahanol sefydliadau wrth drin taliadau am gynnwys y cyhoedd a statws cyflogaeth a threth cyfranogwyr cyhoeddus.
- Systemau talu anhyblyg. Er enghraifft, mae systemau a phrosesau talu'n aml wedi'u sefydlu ar gyfer cyflenwyr proffesiynol, corfforaethol yn hytrach nag aelodau unigol o'r cyhoedd
- Prosesau talu anghyson, weithiau hyd yn oed ar draws gwahanol rannau o'r un sefydliad.
- Lle bo cyfranogwyr cyhoeddus yn chwarae rhan mewn gwaith mwy helaeth (e.e. efallai eu bod yn chwarae rhan mewn nifer o gyfarfodydd a rhaglenni o fewn yr un sefydliad), fe fyddant yn hawlio am nifer o ddigwyddiadau taladwy. Mae'n iawn bod adrannau adnoddau dynol a chyllid yn gallu codi cwestiynau ynglŷn â statws cyflogaeth sy'n gysylltiedig â'r taliadau; felly mae angen i hyn fod yn glir o'r cychwyn cyntaf.

Mae yna ganllawiau eisoes yn bodoli sy'n tywys ac yn hwyluso talu am weithgareddau cynnwys y cyhoedd. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r dryswch a'r problemau'n codi wrth asesu gweithgareddau cynnwys y cyhoedd ac wrth benderfynu ar statws cyflogaeth a goblygiadau o ran treth. Mae'r ddogfen ganllawiau hon felly'n canolbwyntio'n benodol ar ddarparu cyfeiriadau defnyddiol ar gyfer cydweithwyr mewn sefydliadau i wneud asesiadau sy'n arwain at y dulliau talu mwyaf priodol ac sy'n rhoi sicrwydd eu bod yn dal i ddangos diwydrwydd dyladwy, yn enwedig o ran CThEF.

Wrth ddatblygu'r canllawiau hyn, mae'r awduron wedi ymgynghori â CThEF i wirio'r canllawiau mwyaf priodol a'r dehongliad cywir.

# Atodiad 3: Cyd-ddatganiad ar yr angen am bolisïau priodol ar gyfer gwobrwyo a chydnabod cyfranogwyr cyhoeddus sydd a wnelo ag ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol

Mae ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yn darparu'r dystiolaeth i wella triniaethau, gofal a gwasanaethau i gleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd yn y DU. Mae'n trawsnewid bywydau pobl, yn hybu twf economaidd ac yn hyrwyddo gwyddoniaeth.

Fel prif arianwyr a rheoleiddwyr ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yn y DU, mae ein sefydliadau'n cydnabod rôl hollbwysig cynnwys y cyhoedd gydol y broses ymchwil. Mae cyfranogwyr cyhoeddus yn gallu siapio ymchwil, gan helpu i sicrhau bod ymchwil yn rhoi sylw i gwestiynau sy'n bwysig ac yn berthnasol i gleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd, yn ogystal â bod yn ymarferol ac yn ddichonol i'w chynnal.

Mae tystiolaeth o gynnwys y cyhoedd mewn dylunio a datblygu cynigion ymchwil, a chynlluniau ar gyfer parhau i gynnwys y cyhoedd mewn cyflenwi astudiaethau ymchwil, yn ofynnol mewn prosesau ariannu. Mae hefyd yn ystyriaeth allweddol wrth adolygu astudiaethau ymchwil o safbwynt rheoleiddio a llywodraethu.

Er y bydd dulliau o gynnwys y cyhoedd yn amrywio rhwng gwahanol astudiaethau ymchwil, mae Safonau'r DU ar gyfer Cynnwys y Cyhoedd wedi'u datblygu i ddarparu disgrifiad o sut olwg sydd ar gynnwys y cyhoedd da ac i annog ymddygiadau a dulliau gweithredu sy'n ddilysnod cynnwys y cyhoedd da.

Yn unol â Safonau'r DU hyn, mae cynnig tâl priodol i wobrwyo a chydnabod cyfranogwyr cyhoeddus am rannu o'u hamser, eu gwybodaeth a'u profiad yn rhan bwysig o sicrhau bod y ffordd o gynnwys y cyhoedd yn ystyrlon ac yn gallu tynnu ar amrywiaeth eang o safbwyntiau.

Y disgwyl yw bod yn rhaid i'r sefydliadau hynny sydd a wnelo â noddi a chyflenwi astudiaethau ymchwil sydd wedi'u hariannu fod â pholisïau priodol ar waith i alluogi taliadau hyblyg ac amserol i wobrwyo a chydnabod cyfranogwyr cyhoeddus sy'n cael eu cynnwys mewn ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol.

Yn aml, dywedir bod rhwystrau gweinyddol rhag darparu taliadau priodol i wobrwyo a chydnabod cyfranogwyr cyhoeddus yn un o'r heriau mwyaf ar gyfer mynd ati i gynnwys y cyhoedd yn ystyrlon mewn ymchwil. Mae parhad y rhwystrau hyn yn tanseilio'r gallu i dynnu ar safbwyntiau a chyfraniadau'r cyhoedd sy'n gynrychioliadol ac amrywiol, gan o bosibl niweidio perthnasedd ac effaith yr astudiaeth ymchwil. Mae hefyd yn bosibl bod hyn yn gwastraffu cyllid ymchwil, gan nad yw ymchwilwyr yn gallu defnyddio cyllidebau sydd wedi'u dyrannu ar gyfer gweithgareddau cynnwys y cyhoedd.

Mae cynnwys y cyhoedd yn gallu galw am amrywiaeth eang o weithgareddau, ac mae diffyg 'un dull sy'n addas ar gyfer pob sefyllfa' ar gyfer astudiaethau ymchwil yn gallu ei gwneud yn gymhleth gwneud trefniadau ar gyfer gwobrwyo a chydnabod, yn enwedig lle y gallai olygu goblygiadau i gyfrifoldebau sefydliadau o ran treth a chyflogaeth.

Mae'r canllawiau ymarferol ategol wedi'u datblygu i gefnogi sefydliadau i ddatblygu a gweithredu polisïau sy'n galluogi gwobrwyo a chydnabod y rhan y mae cyfranogwyr cyhoeddus yn ei chwarae mewn ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yn briodol, gan sicrhau bod ymchwil yn foesegol, yn berthnasol, o ansawdd uchel ac yn dra-effeithiol.

# Atodiad 4: Siart lif penderfynu



# Atodiad 5: Crynodeb o ddogfennau, dolenni neu adnoddau

Dyma grynodeb o’r holl ddogfennau, dolenni ac adnoddau eraill y sonnir amdanynt yn y ddogfen ganllawiau drwyddi draw.

Safonau’r DU ar gyfer Cynnwys y Cyhoedd
Twlsyn Gwirio Statws Cyflogaeth ar gyfer Treth (CEST)
Tudalennau canllawiau CEST
Gweminar am y twlsyn CEST
Gwefan CThEF: ynglŷn â chontractau cyflogaeth a mathau o gontractau
Gwefan y Llywodraeth: Diffiniad y Llywodraeth o weithiwr a’r hunangyflogedig
Llawlyfr Statws Cyflogaeth ESM0500
Llawlyfr Incwm Cyflogaeth (EIM71105)
Gweithio oddi ar y gyflogres (IR35)
Siart lif IR35 ar gyfer sefydliadau ac ar gyfer unigolion
Gwefan y Llywodraeth: Cyfraddau Treth Incwm a Lwfansau Personol
Canllawiau talu NIHR
Gweledigaeth y DU ar gyfer Dyfodol Cyflenwi Ymchwil Glinigol y DU
Cydymrwymiad i gynnwys y cyhoedd